Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Bro Idris
Ffordd Arran
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1HY

01/10/2024

Annwyl Mrs Jano Owen,

**Ymweliad Interim:** Medi 2024

Diolch am eich cefnogaeth i drefnu ein hymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr am eich gwaith gwella a sut rydych chi'n cefnogi athrawon.
- Siarad â disgyblion yn y gwersi a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld a gwersi mathemateg, Saesneg, daearyddiaeth, gwyddoniaeth, Cymraeg, dyniaethau a thechnoleg i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith.
- Ymgymryd â theithiau dysgu ar bob safle cynradd.
- Arsylwi ar y cyd gan drafod yr hyn a welwyd.
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu ar sampl o lyfrau gydag uwch arweinydd.
- Siarad â thimau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol am ddarpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau disgyblion.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu medrau disgyblion ar draws yr ysgol trwy gynllunio cydlynus

Mae'n amlwg bod gan staff weledigaeth glir i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion. Mae cynllunio ar y cyd bwriadus rhwng staff ar wahanol safleoedd. Mae timau brwdfrydig o athrawon yn gyrru'r datblygiadau yn eu blaen ac maent yn rhannu adnoddau gyda'r holl staff. Ymddengys bod y cynlluniau

yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion a'u gallu i wneud cynnydd yn y medrau.

Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut mae sicrhau bod y staff cyfan yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog ar lefel briodol ar gyfer datblygu'r medrau disgyblion o bob gallu ar draws yr ysgol.

**Gwella arweinyddiaeth er mwyn cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Roedd yn ddefnyddiol i ni drafod eich trefniadau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Ymddengys bod prosesau a chyfundrefn yn eu lle sy'n sicrhau bod gweithgareddau perthnasol yn cael eu cyflawni yn unol a chalendr cytunedig. Mae rhain yn cael eu cynnal gan arweinwyr ar bob lefel. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar effaith yr addysgu ar safonau disgyblion. Mae cyswllt clir rhwng y gwaith hunanwerthuso a blaenoriaethau'r ysgol. Gwelwyd bod yr ysgol wedi cyflwyno cynlluniau gwella brys i ymateb i faterion penodol sydd wedi eu hadnabod.

. Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Pa mor fanwl gywir yw gwerthusiadau wrth ystyried medrau disgyblion. A yw'r manylder yno i adnabod yn union pa fedrau sydd angen sylw?
- Pa mor fanwl yw'r cynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn dwyn arweinwyr yn atebol am eu gweithredu a'i effaith ar safonau.
- Sut gellir bod yn fwy rhagweithiol o ystyried y wybodaeth a gesglir trwy weithgarwch gwerthuso.

Rydym yn dymuno'n dda i chi gyda'ch datblygiadau yn y dyfodol. Diolch unwaith eto am eich holl help i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Mae adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6615500

Yn gywir,

EMEvans.

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol